



Tynnu Statws Achrededig Rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn Ôl gan CGA

Ionawr 2024

Cynnwys

- 1 [Rhestr termau](#)
- 2 [Diben y ddogfen hon](#)
- 3 [Fframwaith deddfwriaethol](#)
- 4 [Achosion a fydd yn arwain at dynnu achrediad yn ôl](#)
- 5 [Adroddiad cau](#)

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyswllt: Achredu AGA, Cyngor y Gweithlu Addysg
Cyfeiriad: 9fed Llawr, Tŷ Eastgate, 35-43 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0AB
Ffôn: 029 2046 0099
E-bost: achreduaga@cga.cymru
Gwefan: www.cga.cymru/AchreduAGA

1. Rhestr termau

Achredu – Mae achredu rhaglenni AGA yn fath o broses sicrhau ansawdd sy'n asesu cydymffurfedd â'r Meini Prawf. Mae'r ffordd y mae AGA yn cael ei hachredu yn rhan hanfodol o sicrhau gwelliant mewn perfformiad addysgol ysgolion. Gellir achredu rhaglenni AGA am hyd at uchafswm o bum mlynedd.

Pwyllgor achredu – Pwyllgor o hyd at bum aelod, sy'n dod o'r Bwrdd Achredu AGA, sy'n cynnal ymweliad asesu achrediad cychwynnol.

Meini Prawf Achredu "y Meini Prawf" – *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru Llywodraeth Cymru.*

Achos pryder – Mae gan CGA broses achos pryder ar wahân, a fydd yn cael ei sbarduno'n syth os bydd pwyllgor monitro'n penderfynu bod materion arwyddocaol nad ydynt yn cydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu ar lefel rhaglen. Bydd CGA yn anfon llythyr at y bartneriaeth yn cadarnhau canlyniad y broses fonitro ac yn amlinellu'r meysydd penodol y mae'n rhaid i'r bartneriaeth fynd i'r afael â nhw.

Cydymffurfedd – Mae hyn yn ymwneud â rhaglen AGA a sut mae'n bodloni *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru Llywodraeth Cymru.*

Monitro amodau – Pan fydd rhaglen AGA yn cael ei hachredu yn ddarostyngedig i amodau, mae'n rhaid i'r pwyllgor achredu fonitro ymagwedd y bartneriaeth at yr amodau cyn i'r rhaglen ddechrau.

CGA – Cyngor y Gweithlu Addysg. Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, sy'n rhychwantu athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid/gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith. Sefydlwyd CGA gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. O dan y Ddeddf, ad-drefnwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACCC) ac fe'i hailenwyd yn Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Daeth CGA i fodolaeth ar 1 Ebrill 2015. Amlinellir categorïau cofrestru ar [wefan CGA](#).

Arolygu – Mae Estyn yn ymgymryd ag arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Dylai arolygu fod yn brofiad cadarnhaol i ddarparwyr a'u cymunedau. Mae arolygiad Estyn yn helpu i:

- sicrhau'r gorau i bob dysgwr
- cynnig cyfle i arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyfrannu'n broffesiynol ac yn adeiladol
- rhannu profiadau ledled Cymru i gefnogi gwelliant

AGA – Addysg Gychwynnol Athrawon

Bwrdd Achredu AGA "y Bwrdd" – Mae CGA yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am achredu rhaglenni AGA i'w Fwrdd Achredu AGA (y Bwrdd). Mae'r Bwrdd yn cynnwys hyd at ddeuddeg o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd a dau ddirprwy, sydd i gyd yn dod o wahanol feysydd addysg.

Monitro – Yn unol â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017"), mae gan CGA gyfrifoldeb statudol am:

- fonitro cydymffurfedd cyrsiau neu raglenni astudio Addysg Gychwynnol Athrawon achrededig â'r Meini Prawf Achredu.

Diben gwaith monitro CGA yw sicrhau bod rhaglenni AGA achrededig yn parhau i gydymffurfio â'r Meini Prawf Achredu drwy gydol y cyfnod achredu.

Pwyllgor monitro – Mae pwyllgor yn cynnwys tri aelod fel arfer, sy'n dod o'r Bwrdd Achredu AGA, sy'n cynnal ymweliad asesu monitro.

Partneriaeth – Darparwr rhaglen (neu raglenni) AGA yng Nghymru, sy'n cynnwys Prifysgol, ysgolion arweiniol ac ysgolion partner.

Rhaglen – Rhaglen academaidd o Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni BA (Anrh) israddedig, a rhaglenni Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR).

Ailachredu – Gellir achredu rhaglen AGA am hyd at uchafswm o bum mlynedd. Os yw partneriaeth yn bwriadu cynnig y rhaglen y tu hwnt i'r cyfnod achredu cychwynnol, bydd angen iddi gyflwyno'r rhaglen ar gyfer cyfnod achredu arall. Adwaenir y broses hon fel ailachredu. Bydd ailachredu'n cael ei lywio gan achredu, monitro ac archwilio dogfennau a gasglwyd drwy gydol y cyfnod achredu blaenorol.

2. Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r camau y mae'n ofynnol i bartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a Chyngor y Gweithlu Addysg eu cymryd, yn yr achosion canlynol:

- (a) [pan fydd statws achrededig rhaglen\(ni\) yn cael ei dynnu'n ôl gan CGA yn unol â'r amgylchiadau a amlinellir yn y canllawiau hyn](#), **neu**
- (b) [pan fydd CGA wedi gwrthod cais am ailachredu ar ddiwedd cyfnod achredu presennol](#), **neu**
- (c) [pan fydd partneriaeth wedi penderfynu peidio â chynnig rhaglen AGA mwyach, ac felly'n cau rhaglen achrededig yn wirfoddol](#), **neu**
- (ch) [pan fydd partneriaeth wedi penderfynu peidio ag ailymgeisio am achrediad AGA ar ddiwedd cyfnod achredu](#)

Cyhoeddwyd y ddogfen hon at sylw partneriaethau AGA, athrawon dan hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill â buddiant.

3. Fframwaith deddfwriaethol

Yn unol â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 (“Gorchymyn 2017”), mae gan CGA gyfrifoldeb statudol am:

- Dynnu achrediad cyrsiau neu raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon yn ôl.

Mae’n rhaid i statws achrededig y ddarpariaeth gael ei dynnu’n ôl yn unol â’r [Meini Prawf Achredu](#). Yn benodol, mae gan bwyllgor y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon annibynnol y cyfrifoldebau canlynol:

- Caiff y pwyllgor benderfynu tynnu achrediad cwrs neu raglen astudio hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol yn ôl dim ond yn unol â’r Meini Prawf Achredu a nodir gan Weinidogion Cymru o bryd i’w gilydd.
- Mae’n rhaid i’r pwyllgor hysbysu’r darparwr am ei benderfyniad yn ysgrifenedig o fewn 15 niwrnod gwaith o wneud y penderfyniad hwnnw.
- Mae’n rhaid i’r hysbysiad gynnwys y wybodaeth ganlynol
 - y rhesymau dros y penderfyniad ac, yn arbennig, y Meini Prawf Achredu nad yw’r darparwr yn eu bodloni mwyach
 - y ffaith bod gan y darparwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad
 - yr unigolyn y mae’n rhaid i’r darparwr ei hysbysu am unrhyw apêl
 - y ffaith bod rhaid i unrhyw hysbysiad apêl gynnwys seiliau’r apêl, a’r dyddiad olaf pryd y ceir cyflwyno apêl

Fel arfer, bydd unrhyw hysbysiad yn cael ei roi i’r bartneriaeth trwy bost electronig i gyfeiriad e-bost a ddarparwyd i CGA eisoes. Gallai’r ohebiaeth gynnwys copiâu a anfonwyd at bartïon eraill â buddiant yn ôl disgrisiwn CGA. Gallai’r rhain gynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (hyd at 31 Mawrth 2024), ac (o 1 Ebrill 2024) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER).

4. Achosion a fydd yn arwain at dynnu achrediad yn ôl

4.1 Bydd statws achrededig rhaglen(ni) yn cael ei dynnu'n ôl gan CGA yn unol â'r amgylchiadau a amlinellir yn y canllawiau hyn

Mae'r adran hon yn amlinellu'r amgylchiadau a allai arwain at dynnu achrediad yn ôl, a chyfrifoldeb CGA a'r bartneriaeth yn yr achos hwn. Bydd achrediad rhaglen yn cael ei dynnu'n ôl yn dilyn gweithredu proses "Achos pryder yn dilyn monitro" CGA bob amser. Bydd y broses hon yn cael ei gweithredu os bydd un o'r senarios canlynol (neu'r ddau ohonynt) yn codi:

- (a) Diffyg cydymffurfio a amlygwyd trwy ymweliad monitro CGA
- (b) Diffyg cydymffurfio sy'n codi yn ystod (neu yn dilyn) arolygiad Estyn

Bydd y broses achos pryder yn galluogi partneriaethau i ymateb i'r materion diffyg cydymffurfio a amlygwyd. Ar ôl cytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny, trefnir ymweliad arall â'r bartneriaeth i benderfynu p'un a aethpwyd i'r afael â'r mater(ion) diffyg cydymffurfio. Bydd y graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â'r broses diffyg cydymffurfio yn cael eu trafod a'u cytuno gyda'r bartneriaeth.

Os nad aethpwyd i'r afael â'r materion hynny'n ddigonol, gallai CGA dynnu statws achrededig rhaglen yn ôl, lle mae'r rhaglen yn parhau i beidio â chydymffurfio ag un neu fwy o'r Meini Prawf.

4.1.1 Hysbysu am dynnu statws achrededig yn ôl

Bydd CGA yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r bartneriaeth o'r bwriad i dynnu statws achrededig rhaglen yn ôl o fewn 15 niwrnod gwaith o wneud y penderfyniad. Dylai partneriaethau nodi mai 15 niwrnod gwaith o'r penderfyniad yw hyn ac nid o reidrwydd ddyddiad yr ymweliad dychwelyd fel rhan o'r broses achos pryder.

Bydd yr hysbysiad yn cael ei roi, trwy e-bost, i gynrychiolydd y bartneriaeth a amlygwyd yn ystod yr ymweliad monitro gwreiddiol (neu a amlygwyd yn ddiweddarach trwy'r broses achos pryder, os cododd y diffyg cydymffurfio trwy arolygiad), neu gynrychiolydd arall a enwyd a amlygwyd gan y bartneriaeth. Anfonir copi o'r llythyr at y canlynol, hefyd:

- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- CCAUC/ CTER
- Is-ganghellor (neu Swyddfa Is-ganghellor) y brifysgol sy'n ymwneud â'r bartneriaeth

Bydd yr hysbysiad o dynnu'n ôl yn cynnwys:

- y rhesymau dros y penderfyniad ac, yn arbennig, y Meini Prawf achredu nad yw'r darparwr yn eu bodloni mwyach
- y ffaith bod gan y darparwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad
- yr unigolyn y mae'n rhaid i'r darparwr ei hysbysu am unrhyw apêl
- y ffaith bod rhaid i unrhyw hysbysiad apêl gynnwys seiliau'r apêl, a'r dyddiad olaf pryd y ceir cyflwyno apêl

4.1.2 Apelio yn erbyn tynnu statws achrededig yn ôl

Bydd gan y bartneriaeth yr hawl i apelio, o fewn 15 niwrnod gwaith o'r hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad. Bydd angen i apelïadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig, gan amlinellu seiliau'r apêl ac unrhyw dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol. Rhoddir manylion ychwanegol am y broses apelio yn y llythyr penderfyniad.

Bydd pwyllgor a gyfansoddwyd o'r newydd, a ddewiswyd o gronfa aelodau'r Bwrdd Achredu AGA (nad yw'n cynnwys unrhyw aelod a fu'n rhan o wneud y penderfyniad tynnu'n ôl neu'r achrediad cychwynnol) yn ystyried yr apêl. Bydd y pwyllgor apelïadau'n cyfarfod yn breifat i ystyried unrhyw apêl a rhoddir gwybod i'r bartneriaeth yn ysgrifenedig am ganlyniad yr apêl o fewn 15 niwrnod gwaith.

4.1.3 Y ddarpariaeth bresennol, recriwtio a derbyn myfyrwyr yn y dyfodol

Os na chyflwynir apêl neu os cynhelir y penderfyniad gwreiddiol, dylai'r bartneriaeth weithio i sicrhau bod lles a phrofiad addysgol athrawon dan hyfforddiant yn cael eu diogelu trwy'r broses tynnu'n ôl. Dylid nodi'r canlynol:

- Dylai recriwtio parhaus i'r rhaglen(ni) dan sylw orffen yn syth. Ni chaniateir recriwtio pellach i'r rhaglenni – gan gynnwys ar gyfer y myfyrwyr hynny y gwnaed cynigion iddynt eisoes. Mae'n rhaid i bartneriaethau AGA sicrhau bod prosesau ar waith i gefnogi ymgeiswyr a allai ddymuno trosglwyddo i raglenni AGA eraill, a ddarperir gan Bartneriaeth AGA arall o bosibl, os tynnir statws achrededig rhaglen yn ôl.
- Ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig blwyddyn o hyd, disgwylir i'r rhaglen orffen yn y flwyddyn academaidd y gwneir y penderfyniad i dynnu achrediad yn ôl ynddi. Ar gyfer myfyrwyr sy'n gohirio neu sy'n dychwelyd, dylai'r bartneriaeth barhau i weithredu'r rhaglen.
- Ar gyfer rhaglenni israddedig, caniateir i'r rhaglen "orffen addysgu'r" garfan bresennol, fel arfer.

Cyfrifoldebau'r Bartneriaeth	Cyfrifoldebau CGA	Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru	Graddfeydd Amser
	Hysbysu'r bartneriaeth a chyrrff perthnasol o'r penderfyniad i dynnu statws achrededig rhaglen(ni) yn ôl		15 niwrnod gwaith o wneud y penderfyniad
Hysbysu'r holl athrawon dan hyfforddiant / ymgeiswyr presennol, gohiriedig a dyfodol o'r bwriad i dynnu statws achrededig y rhaglen(ni) yn ôl		Cynorthwyo'r bartneriaeth i lunio'r llythyr, gan gynnwys goblygiadau i athrawon dan hyfforddiant presennol, ymgeiswyr ac amlygu'r camau nesaf priodol	25 niwrnod gwaith o wneud y penderfyniad
Hysbysu'r holl ysgolion partner o'r bwriad i dynnu statws		Cynorthwyo'r bartneriaeth i lunio'r llythyr, gan gynnwys goblygiadau i ymwneud	25 niwrnod gwaith o wneud y penderfyniad

achrededig y rhaglen(ni) yn ôl		parhaus yr ysgolion hynny ag AGA	
Diweddarau gwefannau a deunyddiau marchnata i adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen yn cau	Diweddarau gwefan CGA i adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen yn cau		25 niwrnod gwaith o wneud y penderfyniad
Cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant sydd wedi gwneud cais i'r rhaglen a'r rhai hynny sydd wedi gohirio eu hastudiaethau neu eu hatal dros dro		Gweithio gyda phartneriaethau amgen i amlygu cyfleoedd ar gyfer ymgeiswyr ac athrawon dan hyfforddiant sydd wedi gohirio astudiaethau	Erbyn diwedd y flwyddyn academaidd pan dynnir yn ôl
Sicrhau bod safonau ansawdd uchaf posib yn cael eu cynnal trwy gydol y cyfnod darparu, gan gynnwys cynllun gweithredu i gyflawni hyn	Cymorth gan swyddogion CGA a phwyllgor y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon		Drwy gydol yr holl ddarpariaeth sy'n weddill, gan gynnwys darpariaeth israddedig sy'n weddill, lle y bo'n berthnasol
Sicrhau bod gwybodaeth am ddyfarnu SAC yn cael ei rhoi i CGA, cyn cau (lle y bo'n berthnasol)	Sicrhau bod SAC yn cael ei ddyfarnu i athrawon dan hyfforddiant o'r rhaglen (lle y bo'n berthnasol)		Drwy gydol yr holl ddarpariaeth sy'n weddill, gan gynnwys darpariaeth israddedig sy'n weddill, lle y bo'n berthnasol

4.1.4 Cynnal ansawdd drwy gydol y cyfnod tynnu'n ôl

Fel yr amlinellir yn y tabl a ddangosir yn 4.1.3, disgwylir i'r bartneriaeth weithio tuag at gydymffurfio â'r Meini Prawf yn ystod y cyfnod cau. Bydd yn ofynnol i bartneriaethau gynhyrchu cynllun gweithredu a fydd yn dangos:

- camau gweithredu penodol a luniwyd i gyflawni cydymffurfedd
- mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau cau rhaglenni ar ansawdd (e.e. colli staff, effeithiau ar enw da, anfodlonrwydd myfyrwyr)

4.2 Mae CGA wedi gwrthod cais am ailachredu ar ddiwedd cyfnod achredu presennol

4.2.1 Polisi a graddfeydd amser ailachredu

Mae cyflwyno rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon i CGA ar gyfer ailachredu (ar gyfer rhaglenni presennol y daw eu hachrediad cychwynnol i ben o fis Medi 2024 ymlaen) yn datgan:

“Os ystyrir nad yw rhaglen yn cydymffurfio, naill ai trwy weithgarwch monitro neu arolygu, bydd yn destun proses achos pryder CGA a/neu broses gweithgarwch dilynol Estyn. O ran y bartneriaeth honno, (a) os na fydd yn gwneud digon o gynnydd tuag at gyflawni cydymffurfedd, neu (b) os nad yw'n gallu dangos tystiolaeth o hyn o fewn y graddfeydd amser sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno statws ailachrededig, ni fydd y bartneriaeth yn gallu bodloni'r gofynion achredu a amlinellir yn y Meini Prawf, ac felly ni fyddai'n gallu cyflwyno'r rhaglen(ni) hynny i'w hailachredu.”

Fel arfer, mae'n ofynnol i bartneriaethau roi eu cyflwyniadau i CGA erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn cyn i gyfnod achrededig y rhaglen(ni) ddod i ben. Os bydd partneriaeth yn destun proses achos pryder CGA yn ystod y cyfnod hwn, bydd y cynnydd a wnaed gan y bartneriaeth yn cael ei asesu cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Ar y cam hwn, bydd y pwyllgor yn gwneud penderfyniad diffyg cydymffurfio, ac os bydd y rhaglen yn parhau i fethu cydymffurfio, bydd yn cynghori'r bartneriaeth ar lwyddiant tebygol unrhyw gyflwyniad achredu. Os bydd y bartneriaeth yn symud ymlaen i gyflwyno ailachrediad, bydd y canllawiau ar gyfer Cyflwyno rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon i CGA ar gyfer Ailachredu (ar gyfer rhaglenni presennol y daw eu hachrediad cychwynnol i ben o fis Medi 2024 ymlaen) yn berthnasol.

Os gwrthodir cyflwyniad ar gyfer ailachredu, bydd y canllawiau yn adrannau 4.1.1, 4.1.3 a 4.1.4 yn berthnasol. Bydd y polisi apeliadau'n dilyn hwnnw a amlinellir yn y canllawiau cyflwyno.

4.3 Mae partneriaeth wedi penderfynu peidio â chynnig rhaglen AGA mwyach, ac felly'n cau rhaglen achrededig yn wirfoddol

4.3.1 Hysbysu CGA

Dylai cyfarwyddwr y bartneriaeth AGA hysbysu CGA o'r bwriad i roi'r gorau i gynnig rhaglen AGA. Os gwneir y penderfyniad hwn yn ystod cyfnod achrededig, dylai'r bartneriaeth ystyried ei rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â marchnata rhaglenni AGA. Er bod pob rhaglen yn ddarostyngedig i achredu a'r prosesau tynnu'n ôl a amlinellir yn y canllawiau hyn, gallai penderfyniad gwirfoddol gan y bartneriaeth (er enghraifft) arwain at oblygiadau i recriwtio parhaus a chynigion i athrawon dan hyfforddiant.

Dylid anfon y penderfyniad yn ysgrifenedig at achreduaga@cga.cymru.

Dylai'r penderfyniad gynnwys:

- cadarnhad bod y penderfyniad i dynnu'r rhaglen(ni) yn ôl wedi cael ei wneud ar y cyd â'r trefniadau llywodraethu priodol o fewn y brifysgol a'r bartneriaeth ehangach
- cadarnhad bod ysgolion partner arweiniol yn cytuno â'r penderfyniad
- y dyddiad erbyn pryd y bydd recriwtio'n gorffen
- y dyddiad erbyn pryd y bydd unrhyw raglen(ni) ôl-raddedig yn gorffen
- y dyddiad erbyn pryd y bydd unrhyw raglen(ni) israddedig yn gorffen
- nifer yr ymgeiswyr y gallai fod angen i ddarparwr arall gynnig lle iddynt
- nifer y myfyrwyr sydd wedi gohirio (neu sy'n dychwelyd) y gallai cau'r rhaglen(ni) effeithio arnynt

4.3.2 Hysbysu cyrff eraill

Bydd CGA yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r bartneriaeth o dderbyn yr hysbysiad o fewn 15 niwrnod gwaith o gael y penderfyniad i dynnu'n ôl. Bydd yr ymateb, trwy e-bost, yn cynnwys yr hysbysiad gwreiddiol gan y bartneriaeth ac yn nodi'r camau nesaf sy'n ofynnol. Anfonir copi o'r llythyr at y canlynol, hefyd:

- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- CCAUC/CTER
- Is-ganghellor (neu Swyddfa Is-ganghellor) y brifysgol sy'n ymwneud â'r bartneriaeth

Os bydd rhaglen yn cau'n wirfoddol, bydd y canllawiau yn adrannau 4.1.3 a 4.1.4 yn berthnasol.

4.4 Mae partneriaeth wedi penderfynu peidio ag ailymgeisio am ailachrediad ar ddiwedd cyfnod achredu.

Yn ystod blwyddyn academiaidd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sy'n gysylltiedig ag ailachredu, bydd achreduaga@cga.cymru yn anfon neges e-bost at bartneriaethau i amlinellu eu bwriad i gyflwyno rhaglen ar gyfer ailachredu. Rhoddir dyddiad cau i bartneriaeth ymateb, cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.

Os na fydd partneriaeth yn dymuno ceisio ailachrediad, dylai'r bartneriaeth ddefnyddio'r un dyddiad cau i roi'r hysbysiad a amlinellir yn 4.4.1.

4.4.1 Hysbysu CGA

Dylai cyfarwyddwr y bartneriaeth AGA hysbysu CGA o'r bwriad i roi'r gorau i gynnig rhaglen AGA. Os gwneir y penderfyniad hwn yn ystod cyfnod achrededig, dylai'r bartneriaeth ystyried ei rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â marchnata rhaglenni AGA. Er bod pob rhaglen yn ddarostyngedig i achredu a'r prosesau tynnu'n ôl a amlinellir yn y canllawiau hyn, gallai penderfyniad gwirfoddol gan y bartneriaeth (er enghraifft) arwain at oblygiadau i recriwtio parhaus a chynigion i athrawon dan hyfforddiant.

Dylid anfon y penderfyniad yn ysgrifenedig at achreduaga@cga.cymru.

Dylai'r penderfyniad gynnwys:

- cadarnhad bod y penderfyniad i dynnu'n ôl wedi cael ei wneud ar y cyd â'r trefniadau llywodraethu priodol o fewn y brifysgol a'r bartneriaeth ehangach
- cadarnhad bod ysgolion partner arweiniol yn cytuno â'r penderfyniad
- y dyddiad erbyn pryd y bydd recriwtio'n gorffen
- y dyddiad erbyn pryd y bydd unrhyw raglenni ôl-raddedig yn gorffen
- y dyddiad erbyn pryd y bydd unrhyw raglenni israddedig yn gorffen
- nifer yr ymgeiswyr y gallai fod angen i ddarparwr arall gynnig lle iddynt
- nifer y myfyrwyr sydd wedi gohirio neu sy'n dychwelyd y gallai cau'r rhaglenni effeithio arnynt

4.4.2 Hysbysu cyrff eraill

Bydd CGA yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r bartneriaeth o dderbyn yr hysbysiad o fewn 15 niwrnod gwaith. Bydd yr ymateb, trwy e-bost, yn cynnwys yr hysbysiad gwreiddiol gan y bartneriaeth ac yn nodi'r camau nesaf sy'n ofynnol. Anfonir copi o'r llythyr at y canlynol, hefyd:

- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- CCAUC/ CTER
- Is-ganghellor (neu Swyddfa Is-ganghellor) y brifysgol sy'n ymwneud â'r bartneriaeth

Os bydd rhaglen yn cau'n wirfoddol, bydd y canllawiau yn adrannau 4.1.3 a 4.1.4 yn berthnasol.

5. Adroddiad Cau

O fewn dau fis calendr o gau rhaglen, bydd CGA yn llunio adroddiad ar y broses gau. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- trosolwg o'r graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â chau rhaglen neu raglenni, gan gynnwys hysbysiad gan y bartneriaeth
- esboniad o'r rhesymau dros dynnu'n ôl neu gau
- sylwadau ar y ddarpariaeth a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan y bartneriaeth yn ystod y cyfnod cau
- asesiad o'r effaith ar athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi gohirio astudio ar hyn o bryd neu sy'n dychwelyd i astudio
- asesiad o'r effaith ar ymgeiswyr

Bydd yr adroddiad cau yn cael ei rannu â'r bartneriaeth, ac fe'i hanfonir at y canlynol hefyd:

- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- CCAUC/CTER
- Is-ganghellor (neu Swyddfa Is-ganghellor) y brifysgol sy'n ymwneud â'r bartneriaeth